

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	11 CHWEFROR 2021
TEITL	CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL
PWRPAS YR ADRODDIAD	AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 IONAWR 2021
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Tachwedd 2020 hyd 31 Ionawr 2021.

2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 31 Ionawr 2021:

Disgrifiad	Nifer
Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol	3

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Ionawr 2021, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

TEITL	ADRAN	GWASANAETH	LEFEL SICRWYDD	ATODIAD
Taliadau i Weithwyr Gofal	Cyllid	Pensiynau a Chyflogau	Uchel	Atodiad 1
Gostyngiad Treth Cyngor	Cyllid	Refeniw	Uchel	Atodiad 2
Trefniadau "Cinio am Ddim"	Plant a Theuluoedd	Plant a Chefnogi Teuluoedd	Uchel	Atodiad 3

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

LEFEL SICRWYDD	UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.
	DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.
	CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.
	DIM SICRWYDD	Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion.

3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 31 Ionawr 2021:

- Newid Hinsawdd (*Corfforaethol*)
- Trefniadau Diogelu (*Corfforaethol*)
- Trefniadau Busnes yn sgil Covid-19 (*Corfforaethol*)
- Risgiau gyda'r Gadwyn Gyflenwi (*Corfforaethol*)
- Trefniadau Gweithio o Gartref (*Corfforaethol*)
- Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Cenedlaethol (*Corfforaethol*)
- Grant Addysg Ôl-16 (*Addysg*)
- Gorfodaeth Ffyrdd a Parcio (*Amgylchedd*)
- Diogelwch Systemau TG (*Cyllid*)
- Amgueddfa Lloyd George (*Economi a Chymuned*)
- Cynllun STEM Gogledd (*Economi a Chymuned*)
- Ffioedd Cartrefi Preifat (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*)

4. ARGYMHELLIAD

- 4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Tachwedd 2020 hyd at 31 Ionawr 2021, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

TALIADAU I WEITHWYR GOFAL

1. Cefndir

- 1.1 Cyhoeddodd y Prif Weinidog, Mark Drakeford, ar 1 Mai bydd yn rhoi taliad o £500 i dros 64,000 o weithwyr y sector gofal a chymdeithasol ar draws Cymru er mwyn gydnabod eu gwaith caled dros amser heriol y pandemig. Ar y pryd, dywedodd y Prif Weinidog fod staff sy'n darparu gofal yn y cartref ac mewn cartrefi gofal yn aml yn derbyn elfen uwch o risg ac y byddai'r taliadau ychwanegol yn cydnabod hynny. Ar ddechrau Mehefin, cafodd y taliad ei ymestyn i gynnwys staff cegin a chynorthwyyr personol mewn cartrefi gofal, gweithwyr asiantaeth, a gweithwyr cymorth gofal cartref.

Mewn datganiad, dywedodd Llywodraeth y DU eu bod wedi rhoi £2.3bn i Lywodraeth Cymru at gefnogi pobl, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus yn ystod y pandemig, fodd bynnag, adroddwyd bod y taliadau yn gysylltiedig â chyflogaeth ac felly yn destun treth incwm ac Yswiriant Cenedlaethol.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i weinyddu taliadau a wneir o dan y cynllun taliad arbennig sef y £500 fydd yn cael eu talu i weithwyr gofal, yn ogystal â sicrhau bod y taliadau a wneir yn ddilys, yn gywir ac wedi cael eu gwneud yn amserol fel bod modd hawlio ad-daliadau yn ôl gan Lywodraeth Cymru yn llawn. Bydd hefyd yn archwilio'r broses apêl a threfniadau ar gyfer delio â cheisiadau hwyr.
- 2.2 Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygu trefniadau ar gyfer adnabod, cyfathrebu a dilysu taliadau, gwirio'r sampl o daliadau a wnaed i sicrhau eu bod yn gymwys, yn gywir ac amserol, yn ogystal ag adolygu trefniadau ar gyfer y proses apêl, adrodd at Lywodraeth Cymru ac ad-hawlio taliadau.
- 2.3 Adroddir ar yr archwiliad yma mewn dau ddarn sef yr interim (Tachwedd 2020) a'r terfynol (Mawrth 2021). Mae'r interim yn adrodd ar y trefniadau cychwynol a chywirdeb y cais hawlio cyntaf a bydd yr adroddiad terfynol yn gwirio bod yr arian wedi cael eu hawlio a'u derbyn yn gywir a chyflawn.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

- 3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

- 4.1 Gwelwyd bod trefniadau addas mewn lle ar gyfer gweinyddu a phrosesu ceisiadau am daliadau i weithwyr gofal, yn cynnwys cyfarwyddiadau priodol wedi'u dosbarthu i holl weithwyr/rheolwyr, darparwyr allanol ac unigolion cymhwysedig i allu dilysu cymhwysedd gan y Cyngor.
- 4.2 Derbyniwyd canllawiau gan Lywodraeth Cymru ar sut i weinyddu ceisiadau am daliadau arbennig £500 i weithwyr gofal yn cynnwys ceisiadau mewnol, darparwyr allanol, apeliadau a'r trefniant ar gyfer ad-hawlio'r arian yn ôl. Fodd bynnag, nid oedd y canllawiau yn cynnwys dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau ac apeliadau. Ers cychwyn yr archwiliad, derbyniwyd cadarnhad gan Lywodraeth Cymru mai'r dyddiad cau yw 18 Rhagfyr 2020 a bydd y cynghorau ond yn derbyn ceisiadau hwyr o dan amgylchiadau eithriadol. Hysbyswyd mai'r dyddiad cau cyflwyno cais am ad-hawlio bydd 16 Mawrth 2021. Hefyd amlygwyd bydd cwmni Data Cymru yn cynnal gwiriadau datgan unrhyw geisiadau dyblyg ar draws y wlad yn y dyfodol agos. Awgrymir y dylai'r Cyngor dderbyn cyfarwyddiadau pellach ar drefniadau os darganfyddir unrhyw daliadau dyblyg a sut y bydd y rhain yn cael eu trin fel nad oes ansicrwydd ar gyfer cyflwyno'r cais olaf am ad-hawlio arian yn ôl gan Lywodraeth Cymru ac i sicrhau y gellir adennill y costau i gyd yn llawn. Cytunodd y Rheolwr Prosiect a mynegodd ei bod yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ei diweddarau gyda gwybodaeth bellach ar hyn ynghyd â'r dyddiad cau ar gyfer derbyn apeliadau.
- 4.3 Detholwyd sampl o daliadau a wnaethpwyd ym mis Medi a Hydref 2020 i ddarparwyr allanol a gwelwyd bod manylion cyflawn wedi'u darparu i'r Cyngor yn unol â'r canllawiau.
- 4.4 Cynhaliwyd gwiriadau am unrhyw geisiadau dyblyg o'r sampl o ddarparwyr allanol a thaliadau i staff mewnol yn gyfan ac ymddengys bod y Cyngor wedi cynnal gwiriadau priodol gan nad oedd achosion o daliadau dyblyg wedi'u gwneud.
- 4.5 Mynegodd y Rheolwr Prosiect bod pob ymdrech wedi'i wneud ar gyfer adnabod ceisiadau dyblyg ar draws Gwynedd cyn eu talu.
- 4.6 Gwiriwyd 40 sampl o staff mewnol ar draws y cyflogresi a dderbyniodd y taliad ac ymddengys bod y ffurflenni wedi'u cwblhau yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i'r Rheolwr Prosiect fedru eu gweinyddu. Ymddengys o'r sampl a wiriwyd hefyd bod y taliadau yn gymwys i dreth ac wedi'u gweithredu'n gywir.
- 4.7 Cytunwyd y taliadau a wnaethpwyd o gyfriflyfr y Cyngor yn erbyn y ffurflen hawlio Hydref 2020 ac ymddengys bod y cais yn gyflawn ac yn gywir hyd at Hydref 2020.
- 4.8 Ymddengys bod y ffurflen hawlio gyntaf (Hydref 2020) wedi ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru gyda'r cyfanswm o £654,594 sydd yn cynnwys taliadau i staff, costau pensiynau, YG a chostau gweinyddol. Caiff y taliad ei dalu i gyfrif y Cyngor gyda'r gweddill £987,436.76 (swm hyd Tachwedd 2020 heb gynnwys yr amcangyfrif swm y bydd yn cael eu talu mewn gosodiadau (sydd ychydig dros £10k) i'w hawlio cyn diwedd Mawrth 2021.
- 4.9 Bydd yr archwiliad yn cael ei chwblhau wrth adolygu'r cais olaf wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad cau, Mawrth 2021 yn ogystal â sicrhau bod cyfansymiau wedi cael eu talu i mewn yn gyflawn.

GOSTYNGIAD TRETH CYNGOR

1. Cefndir

1.1 Ar 1 Ebrill 2013, fel rhan o raglen diwygio lles Llywodraeth San Steffan, diddymwyd Budd-dal y Dreth Cyngor, a chyflwynwyd Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor yn ei le. Yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, rhaid i bob awdurdod lleol ddarparu cynllun er mwyn pennu pa ostyngiadau fydd ar gael fel cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor. Mabwysiadwyd cynllun lleol cyfredol Cyngor Gwynedd am 2020/21 gan y Cyngor Llawn ar 19 Rhagfyr 2019.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer prosesu ceisiadau cynyddol am Ostyngiad Treth Cyngor yn ystod y Pandemig, a bod trefniadau i sicrhau mai ond y rhai sydd yn cymwys i'r gostyngiad oedd yn ei dderbyn. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu dethol sampl o unigolion sydd wedi derbyn gostyngiad yn 2020/21, gan wirio fod eu ceisiadau yn ddilys ac wedi eu prosesu'n gywir ac yn brydlon.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Gwelwyd bod trefniadau addas mewn lle ar gyfer prosesu ceisiadau am Ostyngiad Treth Cyngor, ond bod angen tynhau ar rai agweddau er mwyn lliniaru'r risgiau amlygwyd.

4.1.1 Mae cyfraniad tuag at gostau'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor wedi ei gynnwys yn y setliad grant i lywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru, gyda'r Cyngor yn ariannu'r costau ychwanegol. Talwyd allan £9.5 miliwn ar y Cynllun am 2019/20, gyda £10 miliwn wedi ei dalu hyd yn hyn am 2020/21 oherwydd cynnydd mewn ceisiadau yn ystod y Pandemig. Disgwylir i'r ffigur hwn gynyddu yn dilyn y 'cyfnod atal' newydd gyda nifer yn debygol o golli eu swyddi neu weld toriad yn eu cyflogau.

4.1.2 Detholwyd sampl o 40 o geisiadau cymwysedig a broseswyd yn ystod Mawrth 2020 – Medi 2020, gan wirio eu bod wedi eu prosesu yn gywir ac yn brydlon. Ar gyfer pob cais yn y sampl, gwelwyd fod y dystiolaeth ddisgwyliedig wedi ei dderbyn i gefnogi'r ceisiadau. Gwelwyd bod swm y gostyngiad a ganiatawyd yn gywir, gyda'r ffigur wedi ei drosglwyddo yn syth yn erbyn biliau Treth Cyngor yr ymgeiswyr.

- 4.1.3 Gwelwyd fod cyfartaledd amser prosesu'r ceisiadau, o'r dyddiad derbyn y cais i'r dyddiad gwobrwyo yn 27 o ddiwrnodau, gydag un cais wedi cymryd 226 o ddiwrnodau. Gwelwyd bod yr ymgeisydd dan sylw wedi newid cyfeiriad yn Rhagfyr 2019 ond heb adrodd hynny i'r Gwasanaeth Budd-dal. Derbyniwyd cadarnhad o'r newid yn ei hamgylchiadau gan Adran Gwaith a Phensiynau yn Ionawr 2020, ond er sawl ymgais ar ran y Gwasanaeth Budd-dal i gysylltu gyda'r ymgeisydd am ragor o wybodaeth, ni chawsant ymateb hyd nes Gorffennaf 2020, gyda'r cais yn cael ei brosesu yn Awst 2020. Cadarnhaodd y Rheolwr Budd-daliadau bod y Gwasanaeth wedi asesu'r cais Gostyngiad Treth Cyngor o Ragfyr 2019. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad drafft cadarnhawyd fod trafodaethau wedi eu cynnal ar gyfer atgyfnerthu'r trefniadau wrth dderbyn ceisiadau tebyg, a chanllawiau diwygiedig wedi eu llunio.
- 4.1.4 Gwelwyd fod y Gwasanaeth Budd-dal a'r Gwasanaeth Trethi yn gwneud pob ymdrech i roi gwybod i bobl Wynedd am y gwahanol eithriadau, disgownt, grantiau neu fudd-daliadau sydd ar gael iddynt yn ystod y cyfnod ansicr hwn, gan amlygu, nid yn unig y cymorth mae'r Cyngor yn ei gynnig, ond hefyd yn eu cyfeirio at gyrff allanol sy'n helpu'r rheini mewn sefyllfa ariannol anodd.

5. Camau Gweithredu

Mae'r Rheolwr Budd-daliadau wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- **Parhau gyda thrafodaethau i wella'r broses wrth dderbyn gwybodaeth.**

TREFNIADAU 'CINIO AM DDIM'**1. Cefndir**

1.1 Mae cinio am ddim ar gael i blant ysgolion Gwynedd os yw eu rhieni neu warcheidwaid yn derbyn budd-daliadau penodol. Yn ystod cyfnodau clo COVID19, a'r gwyliau ysgol perthnasol, penderfynodd Llywodraeth Cymru i barhau i ddarparu cinio am ddim i blant cymwys, er bod yr ysgolion ar gau.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau priodol wedi eu sefydlu er mwyn sicrhau bod plant bregus sy'n derbyn cinio am ddim yn ystod y pandemig COVID19 yn ei dderbyn. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau y Cyngor i ddarparu cinio am ddim i blant cymwys tra bod yr ysgolion ar gau, boed oherwydd cyfnodau clo, neu dros wyliau.

3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

Lefel Sicrwydd	Disgrifiad
UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.

4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Yn ystod tymor ysgol arferol, mae plant cymwys yn derbyn cinio am ddim yn yr ysgol. Gan fod ysgolion wedi cau dros cyfnodau clo pandemig COVID19, penderfynodd Llywodraeth Cymru bod y risg o blant yn methu allan ar bryd o fwyd yn annerbyniol felly penderfynwyd ariannu cynllun i barhau i ddarparu cinio am ddim i blant cymwys tra bod yr ysgolion ar gau, boed oherwydd cyfnodau clo, neu dros wyliau hyd nes Pasg 2022.

4.2 Oherwydd bod yr ysgolion ar gau, roedd angen trefniadau amgen i wireddu'r cyfrifoldeb yma. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllaw i ysgolion, sy'n cynnwys yr opsiwn o ddarparu talebau, taliadau uniongyrchol a pharatoi pecynnau bwyd. Yn wreiddiol, darparwyd pecyn bwyd oer i blant oedd yn gymwys i ginio am ddim, i'w casglu o'r ysgol. Fodd bynnag, roedd y nifer oedd yn dod i gasglu y pecynnau bwyd o'r ysgol yn isel o gymharu â'r nifer o blant oedd yn gymwys.

- 4.3 Ar ôl pwyso a mesur y gwahanol opsiynau, penderfynwyd anfon taliad uniongyrchol wythnosol i gyfrifon banc rhieni/gwarcheidwaid plant sy'n gymwys i ginio am ddim. Yn anffodus, mae risg na fydd plant yn derbyn pryd o fwyd gyda'r arian yma wedi'r cwbl, gan ei fod yn llwyr ddibynnol ar y rhieni yn gwario yr arian ar fwyd priodol i'r plant. Fodd bynnag, am wahanol resymau nid oes modd dileu y risg o gamfaethiaid drwy ddefnyddio yr opsiynau eraill chwaith e.e. gall bwyd o fewn pecynnau parod beidio cael eu bwyta gan y plant. Rhaid hefyd ystyried y goblygiadau o baratoi pecynnau bwyd dros gyfnod clo neu wyliau ysgol; y gost o'r nwyddau, gwaith paratoi, teithio, offer amddiffyn personol, cynllunio a cyflogi staff ayb. Ystyriwyd defnyddio talebau bwyd i rieni/gwarcheidwaid wario mewn archfarchnadoedd ond oherwydd natur wledig Gwynedd, tybir na fyddai hwn wedi gweithio ar draws y Sir gan ei fod yn gyfyngedig i archfarchnadoedd mawr.
- 4.4 Mae'r Adran Addysg yn derbyn rhestr yn wythnosol gan Gwasanaeth Budd-daliadau'r Cyngor o'r sawl sy'n gymwys i dderbyn cinio am ddim, cyn eu talu. Gwiriwyd y taliadau â wnaethpwyd i'r rhieni/gwarcheidwaid a cynhaliwyd profion er mwyn sicrhau priodoldeb. Trafodwyd ambell anghysondebau gyda'r Adran Addysg.
- 4.5 Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, roedd cynllun 'Neges' yn darparu pecynnau bwyd i deuluoedd bregus yng Ngwynedd a Môn. Roedd y cynllun yma yn cwmpasu amrediad fwy eang o deuluoedd na'r sawl sy'n gymwys i cinio am ddim, ac yn ychwanegol i'w pecynnau gofal. Roedd Neges yn cael ei weinyddu gan Môn Larder drwy gytundeb â Menter Môn, ac yn cael ei ddarparu gan gwmni Dylan's. Cynghorau Gwynedd a Môn oedd yn cynnig pobl a theuluoedd ymlaen i dderbyn y pecynnau bwyd, oedd yn cynnwys unigolion digartref mewn hosteli, oedolion bregus heb becyn gofal, teuluoedd ar y gofrestr diogelu ayb.